

Steve Churchman:

Cynghorydd yn un o Fwrdeistrefi Llundain 1986 - 1990 ac 1994 - 99
Cynghorydd Sir yng Ngwynedd 2004 hyd Heddiw

Ymgeisydd Seneddol:

Barking, 1992

Dwyfor-Meirionnydd 2010, 2015, 2017


Ymgeisydd y Cynulliad/Llywodraeth Cymru:

Caernarfon 2003

Dwyfor-Meirionnydd 2007, 2011

Ynys Môn is-ethol 2013

Dwyfor-Meirionnydd 2016



Yn brofiadol ar gyfer y Dasg o'm Blaen

Rwy'n wleidydd Cymunedol profiadol sy'n credu mai'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau twf a chefnogaeth i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yw drwy weithio yn y cymunedau. Bûm yn Gynghorydd Sir yng Ngwynedd ers bron un mlynedd ar bymtheg ar ôl cipio sedd yn un o'r Brodydd Cymreig oddi ar Blaid Cymru i ddod yn gynghorydd Rhyddfrydol cyntaf yn yr ardal er 1935. Yn ystod y 1980au rhoddais ddiwedd ar y gwactod Rhyddfrydol a oedd wedi para degawdau gan gipio un o seddi'r cyngor oddi ar Lafur yn un o Fwrdeistrefi Llundain. Gyda'm gyrfaedd mewn diwydiant ac mewn adwerthu, a phrofiad hirdymor o ofal maeth, rwyf wedi hen arfer ymgyrchu, gweithio â phobl ac mewn sefyllfaoedd amrywiol ac anodd yn aml.

Yng Nghymru, mae Llafur yn fregus ar ddau fater pwysig. Yn gyntaf ac yn amlwg, y GIG gyda BIP Betsi Cadwaladr mewn mesurau arbennig. Fodd bynnag, rwy'n wir gredu bod angen i Lywodraeth Cymru weithio dros Gymru gyfan, nid dim ond yn nhiriogaeth Llafur ar hyd coridor yr M4. Mae'r Gymru wledig yn cael ei gadael ar ôl. Rhaid inni ddal i herio Llafur drosodd a drosodd ar faterion bregus. Cafodd y Torïaid fuddugoliaeth hanesyddol yn yr etholiad cyffredinol diweddar. Pan fydd realiti Brexit yn taro adref, byddant yn syrthio'n ôl.

Rhaid inni ddatblygu ymgyrch unedig, cydlynol sydd â thema strategol ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru os ydym am gael gwell canlyniad yn y blychau pleidleisio a llenwi'r gwactod posibl a adawir gan Lafur a'r Torïaid.

stephenchurchman@btinternet.com

07511 686480

01766 530661

Fy mlaenoriaethau ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru:

- Brwydro'n galed dros ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Brwydro dros well tai cymdeithasol
- Bargen well ar gyfer tai fforddiadwy – gan helpu i gadw ein cymunedau ynghyd
- Gweithio yn y cymunedau, dros y cymunedau
- Diogelu ffermio – gwreiddiau'r economi
- Gwasanaeth lechyd gwell – dim rhagor o fesurau arbennig
- Ad-drefnu llywodraeth leol mewn ffordd ystyrlon – nid ad-drefnu mewn enw
- Buddsoddi'n deg drwy Gymru GYFAN – nid dim ond ar hyd Coridor yr M4

Fy mlaenoriaethau ar gyfer y Blaid:

- Gweithio'n agos â'r pwyllgor rhanbarthol (AERC) i lunio strategaeth unedig
- Gweithio'n agos â gweithredwyr lleol a grwpiau Lleol
- Gweithio'n agos ag Ymgeiswyr Etholaethau
- Codi proffil y Blaid yn y rhanbarth
- Datblygu strategaeth ar gyfer llywodraeth leol i frwydro etholiadau ac isetholiadau
- Ail-godi'r Blaid drwy ymgyrchu'n rheolaidd ar draws y rhanbarth

Steve Churchman - Yn brofiadol ar gyfer y Dasg o'm Blaen

Ymgyrchu GYDOL y Flwyddyn

**Rhai o'm
Hymgyrchoedd
lleol:**



Ymgyrchu'n
llwyddiannus i newid yr
ethos o amgylch plastig
yng Ngwynedd – cyn
bod ailgylchu'n gyffredin.

Ymgyrch llwyddiannus i symud
gorsaf bwmpio Dŵr Cymru y
bwriadwyd ei lleoli yng
Nghwmystradllyn gan arbed
cymuned wledig ac ardal brydferth.



Gwarchod ein gwasanaethau iechyd
gwledig, yn Ysbyty Alltwn a
gwrthwynebu'r bwriad i gau ysgolion ar
raddfa fawr, yma yn Ysgol
Llanystumdwy.




Brwydro dros well bargaen i
fusnesau a chymunedau gwledig.
Sefyll ochr yn ochr â'n ffermwyr.



Fy llwyddiant cyntaf, pan gefais fy
ethol i Wynedd. Deg o gartrefi
newydd i bobl leol wedi cael eu
hadeiladu ar dir diffaith – pob un
â chymalau Meddiannaeth Leol.

**Rhai o'm
Pamffledi
Lleol**

Nid oes dim i guro
ymgyrchu gydol y
flwyddyn er mwyn
ennill yn unrhyw le
gan gynnwys yma
yng Nghymru.
Rwy'n gwneud, nid
dim ond yn dweud.



Fel cynghorydd, rwy'n cadw
mewn cysylltiad gydol y flwyddyn drwy
gylchlythyron rheolaidd. Rwy'n defnyddio
erthyglau ar themâu cenedlaethol sydd wedi'u teilwra i
dynnu sylw at yr effaith leol a materion lleol ar y ochr draw.

Dyma rai esiamplau o'm pamffledi sy'n ddwyieithog 100%.

Yn brofiadol ar gyfer y Dasg o'm Blaen